# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 10 Ebrill 2018 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Davies, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Hugh Irving, Alan James, Brian Jones, Huw Jones, Pat Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Richard Mainon, Christine Marston, Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast (Cadeirydd), Arwel Roberts, Anton Sampson, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Joe Welch, Cheryl Williams, Eryl Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Rheolwr Gwasanaethau AD (CR), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Jeanette Chamberlain-Jones, Rachel Flynn, Peter Scott, David Williams a/ac Huw Williams

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Paul Penlington gysylltiad sy'n rhagfarnu ag Eitem 10 – Rhybudd o Gynnig gan Gwyneth Kensler.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

## 4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng 22 Chwefror 2018 a 23 Mawrth 2018 wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y rhestr o ddigwyddiadau dinesig y bu i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd eu mynychu.*

**5 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2018, 30 Ionawr 2018 a 20 Chwefror 2018 i'w cymeradwyo.

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2018, 30 Ionawr 2018 a 20 Chwefror 2018 fel cofnod cywir, a'u llofnodi gan y Cadeirydd.*

**6 TREFNIADAU AR GYFER ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd yr adroddiad (eisoes wedi'i ddosbarthu) yn ceisio cytundeb ar gyfer Cadeirydd ac Is-gadeirydd arfaethedig y Cyngor Sir ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2018/19 i gael eu hethol yn ffurfiol yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 15 Mai 2018.

Cadarnhawyd y byddai'r Is-Gadeirydd cyfredol, y Cynghorydd Peter Scott yn dod yn Gadeirydd ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2018/19 a byddai'r broses ffurfiol o ethol y Cadeirydd yn digwydd yn y Cyngor Blynyddol oedd i'w gynnal 15 Mai 2018.

**Ethol Cadeirydd -** Cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies fel Is-Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2018/19, eiliwyd gan y Cynghorydd Ann Davies.

Cynigiodd y Cynghorydd Joan Butterfield y Cynghorydd Bob Murray fel Is-Gadeirydd ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2018/19, eiliwyd gan y Cynghorydd Brian Blakeley,.

Cynhaliwyd pleidlais gyfrinachol ar gyfer yr Is-Gadeirydd arfaethedig.

22 pleidlais ar gyfer y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies
20 pleidlais ar gyfer y Cynghorydd Bob Murray

Enwebwyd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies fel yr Is-Gadeirydd arfaethedig ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2018/18. Diolchodd y Cynghorydd Davies i Aelodau am eu cefnogaeth a chafodd ei longyfarch ar ei enwebiad.

***PENDERFYNWYD*** *Cynnig y Cynghorydd Peter Scott yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Meirick Lloyd Davies yn Is-gadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2018/19 i'w hethol yn ffurfiol yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 15 Mai 2018.*

**7 ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer Cymru 2018/19 (eisoes wedi'i gylchredeg), i wneud Aelodau yn ymwybodol o benderfyniadau'r Panel ar gyfer 2018/19 mewn perthynas â thaliadau

i aelodau ac aelodau cyfetholedig, ac i fabwysiadu atodlen cydnabyddiaeth ariannol.

Eleni roedd y Panel wedi gosod lefel o gydnabyddiaeth ariannol o £13,600 a fyddai'n golygu cynnydd o £200 bob blwyddyn i gyflog sylfaenol pob Cynghorydd.

Nododd y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor nad oedd yn credu y dylid derbyn y codiad oherwydd y cyfnod ariannol caled a wynebir gan Awdurdodau Lleol, ac y byddai'n cyfrannu'r cynnydd o £200 i achos da lleol. Aeth ymlaen i gynnig dwy bleidlais ar wahân ar gyfer y ddau argymhelliad gan annog Aelodau i wrthod amod 3.2 fel y'i nodir o fewn yr adroddiad. Cafodd y cynnig ei eilio gan y Cynghorydd Glenn Swingler oedd yn cytuno gyda'i gyd-gynghorydd a chadarnhaodd y byddai ef hefyd yn cyfrannu'r £200 at achos da lleol.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd bod gwneud taliad i aelodau unigol yn ofyniad cyfreithiol. Pe bai'r aelodau unigol yn penderfynu ildio rhan neu'r cyfan o'u cyflog byddai angen iddynt wneud eu cais yn ysgrifenedig, ac wedi hynny byddai'r adran cyflogau yn cael gwybod.

Cafwyd pleidlais ar y cais o gymryd y ddau argymhelliad o fewn yr adroddiad fel dwy bleidlais ar wahân.

PLEIDLAIS:
O blaid – 10
Ymatal - 2
Yn erbyn – 30

Felly, cymerwyd y ddwy eitem fel y nodwyd yn yr adroddiad fel un eitem, a:

***PHENDERFYNWYD bod:***

*(i) y Cyngor yn nodi penderfyniadau'r Panel ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2018/19 mewn perthynas â thalu Cyflogau Sylfaenol, Uwch a Dinesig a thaliadau i aelodau cyfetholedig.*
*(ii) y Cyngor yn mabwysiadu'r atodlen cydnabyddiaeth ariannol fel y nodir yn atodiad 1 (sydd heb newid ers 2017/18 heblaw fel yr amlinellir ym mharagraff 4.4 yr adroddiad) ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2018/19.*

**8 HYFFORDDIANT A DATBLYGU AELODAU**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad (a gylchredwyd eisoes) i roi diweddariad ar faterion hyfforddiant aelodau.

Roedd adborth wedi ei dderbyn gan gyn-aelodau yn dilyn etholiadau am yr hyfforddiant oedd wedi ei ddarparu. Nododd aelodau 2008 nad oedd digon o hyfforddiant, tra roedd aelodau 2012 wedi mynegi bod gormod o hyfforddiant. O ganlyniad, mae'r hyfforddiant sydd wedi'i ddarparu ers etholiadau 2017 wedi'i anelu i fod rhywle yn y canol rhwng y ddwy raglen flaenorol o ran dwyster a chwmpas.

Roedd y Cyngor blaenorol wedi nodi nifer o ofynion hyfforddi gorfodol ac ar hyn o bryd mae dau o'r cyrsiau hyfforddi gorfodol hynny wedi eu dwyn ymlaen:

- Cod Ymddygiad ar gyfer pob aelod, a
- Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Cynllunio.

Gofynnwyd i Aelodau argymell hyfforddiant y gellid ei gynnwys fel cyrsiau hyfforddi gorfodol.

Gofynnwyd i Aelodau hefyd gyflwyno awgrymiadau o ran sancsiynau am beidio mynychu hyfforddiant gorfodol. Penderfynodd y Cyngor blaenorol beidio gosod sancsiynau am beidio mynychu hyfforddiant gorfodol.

Yn ystod trafodaeth, argymhellodd aelodau y dylid cadw'r canlynol fel hyfforddiant gorfodol:

- Cod Ymddygiad
- Pwyllgor Cynllunio
- Pwyllgor Trwyddedu,
- Cyllid

Awgrymwyd hefyd y byddai Rhianta Corfforaethol, Diogelu a Diogelu Data yn gyrsiau hyfforddiant gorfodol.

Canmolodd Aelodau safon ardderchog yr hyfforddiant mewnol oedd wedi ei ddarparu a diolchwyd i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd a staff am eu hymdrech yn hyn o beth.

Argymhellwyd y dylid cyflwyno adroddiad pellach a fyddai'n cynnwys rhestr arfaethedig o gyrsiau hyfforddi gorfodol a sancsiynau posib.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r adroddiad ac y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno o safbwynt hyfforddiant gorfodol a dewisol a sancsiynau posib am beidio mynychu hyfforddiant "gorfodol"*

## 9 DATGANIAD POLISI TÂL 2018/19

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad, ac Asedau Strategol yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol baratoi datganiadau polisi tâl. Mae'n rhaid cymeradwyo Datganiadau Polisi Tâl gan y Cyngor yn flynyddol a'u cyhoeddi ar y wefan berthnasol.

Mae'r Datganiad Ar Bolisïau Tâl yn adlewyrchu'r tâl cyfredol ond doedd y dyfarniadau tâl cenedlaethol ar gyfer 2018/19 heb eu cytuno arnynt eto.

Mae'r adran Polisi Tâl y Prif Swyddog yn adlewyrchu'r tâl cyfredol ond doedd y sefyllfa genedlaethol ar ddyfarniadau tâl cenedlaethol Prif Swyddogion a Phrif Weithredwyr ar gyfer 2018/19 heb eu cytuno arnynt eto.

Roedd Llywodraeth Ganolog y DU yn cyflwyno cap o £95,000 ar daliadau gadael y sector cyhoeddus, ond doedd dim cynnydd wedi bod ar y gwaith hwn ac felly roedd yn dal heb ei gyflwyno. Ar hyn o bryd mae'n aneglur sut byddai hyn yn gweithredu yng Nghymru. Pan fyddwn yn derbyn eglurhad, byddai'r holl bolisïau ar daliadau diswyddo yng Nghyngor Sir Ddinbych yn cael eu hadolygu fel y bo'n briodol i ddarparu ar gyfer unrhyw newidiadau perthnasol mewn deddfwriaeth.

Roedd Llywodraeth Ganolog y DU yn cyflwyno deddfwriaeth i alluogi adfer taliadau gadael y sector cyhoeddus, ond eto doedd dim cynnydd wedi bod ar y gwaith hwn ac felly roedd yn dal heb ei gyflwyno. Byddai hyn yn berthnasol i weithwyr sy'n dychwelyd i'r sector cyhoeddus neu is sector o fewn 12 mis o adael, sy'n ennill dros £80,000 y flwyddyn. Ar hyn o bryd mae'n aneglur sut byddai hyn yn gweithredu yng Nghymru. Byddai'r holl bolisïau a thaliadau diswyddo yng Nghyngor Sir Ddinbych yn cael eu hadolygu fel y bo'n briodol i ddarparu ar gyfer unrhyw newidiadau perthnasol mewn deddfwriaeth.

Cafwyd trafodaeth bellach a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Wedi adolygiad cyflog y Prif Weithredwr, roedd y cyflog pwynt penodol a thâl perthnasol i berfformiad wedi eu dileu, a graddfa raddol wedi ei rhoi mewn lle.
- Awgrymwyd y dylai'r Cyngor dalu cyflog byw " go iawn" yn hytrach na chyflog byw "cenedlaethol"
- Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol - mynegodd y Cynghorydd Graham Timms ei bryderon am y defnydd o "dâl teg" o fewn yr Asesiad o Effaith ar Les. Yn hytrach na defnyddio'r frawddeg "tâl teg" awgrymodd y Cynghorydd Timms ddefnyddio'r frawddeg "gall gwella tâl...." fel geiriad mwy addas. Dywedodd hefyd ei fod yn anghytuno gyda'r datganiad "drwy weithio, gall rhai gweithwyr ddewis cymryd yswiriant meddygol preifat". Ni fyddai hyn, yn ei farn ef, yn arwain at sir mwy iach. Ar y pwynt hwn, cytunodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill y byddent yn ystyried newid y geiriad yn y ddogfen. Cadarnhaodd hefyd y byddai adroddiad Cyflog Byw Go Iawn yn cael ei gyflwyno yn y Cyngor Llawn ar 11 Medi 2018.

***PENDERFYNWYD*** *Bod y Cyngor Llawn yn cytuno ar y Datganiad ar Bolisïau Tâl ar gyfer 2018/19.*

## 10 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler y Rhybudd o Gynnig canlynol i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

"Mae'r Cyngor yn gwaredu'r modd mae Coleg Llandrillo Menai wedi delio gyda'r bwriad i gau Coleg Dinbych ac mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i ymyrryd."

Ar y pwynt hwn, datganodd y Cynghorydd Paul Penlington gysylltiad sy'n rhagfarnu, gan ei fod yn cael ei gyflogi mewn Addysg Bellach, ac o ganlyniad i hynny, gadawodd y Siambr.

Mynegodd Aelodau eu pryderon yn dilyn y cyhoeddiad o'r bwriad i gau Coleg Dinbych.

Dywedodd y Cynghorydd Geraint Lloyd Williams wrth aelodau bod yr AS Chris Ruane a’r AC Ann Jones wedi mynychu cyfarfod yn dilyn y datganiad am y bwriad i gau. Roedd llawer o staff, defnyddwyr, a'r cyhoedd o Ddinbych a’r ardal gyfagos yn y cyfarfod. Roedd Ann Jones wedyn wedi cyfarfod gyda Carwyn Jones a Kirsty Williams. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, roedd yr AC wedi derbyn llythyr gan Kirsty Williams. Roedd y Cynghorydd Lloyd Davies wedi bod yn aros am ganiatâd i gylchredeg y llythyr ac unwaith y byddai’n derbyn caniatâd, byddai’n gwneud hynny. Roedd yr AC a’r AS wedi holi am yr Asesiad o'r Effaith ar Les yn ogystal â'r Achos Busnes ond hyd yma nid oedd y wybodaeth wedi ei derbyn. Felly roedd y Cynghorydd Lloyd Williams wedi cyflwyno cais Rhyddid Gwybodaeth am wybodaeth ynglŷn â sut daethpwyd i’r penderfyniad i gau Coleg Dinbych.

Cynigwyd y Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Gwyneth Kensler ac eiliwyd gan y Cynghorydd Rhys Thomas, ac wedi pleidlais unfrydol,

***PENDERFYNWYD*** *cytunwyd ar y Rhybudd o Gynnig, mae’r Cyngor yn gwaredu’r modd mae Coleg Llandrillo Menai wedi delio gyda’r bwriad i gau Coleg Dinbych ac mae’n galw ar Lywodraeth Cymru i ymyrryd, yn unfrydol.*

## 11 RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (dosbarthwyd eisoes).

Cadarnhawyd y byddai Briffiad y Cyngor oedd i fod i'w gynnal ar 11 Mehefin bellach yn gyfarfod Cyngor Arbennig er mwyn trafod Papur Gwyrdd yr LGR a byddai gweithdy / sesiwn briffio yn cael ei drefnu cyn y cyfarfod hwnnw.

Cadarnhawyd y byddai'r eitem - Y Cyflog Byw Go iawn - yn cael ei ychwaneg at Raglen cyfarfod y Cyngor ym mis Medi.

***PENDERFYNWYD,*** *yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.*

## Unrhyw Fusnes Arall

Cyn terfynu’r cyfarfod dywedodd yr Arweinydd mai hwn fyddai’r cyfarfod Cyngor Llawn olaf i Dr. Mohammed Mehmet, Y Prif Weithredwr. Myfyriodd yr Arweinydd am amser Dr. Mehmet gyda’r awdurdod a mynegodd ei werthfawrogiad am ei wasanaeth ffyddlon ac ymroddedig, gan drawsnewid Sir Ddinbych ac arwain yr awdurdod i fod yn un o’r cynghorau sy’n perfformio ar y lefel uchaf yng Nghymru. Yn ddiweddar roedd Sir Ddinbych wedi derbyn adroddiad Estyn da iawn oedd yn cynnwys cyfeiriad at arweiniwyd gwych, oedd eto oherwydd Dr. Mehmet.

Dymunodd Aelodau yn dda i Dr. Mehmet a’i deulu ar gyfer y dyfodol.

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.25pm.**